Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	**2**
Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru	**3**
Rhesymeg	3
Nod	3
Cefndir	3
Y sefyllfa ar hyn o bryd	5
Manteision y safonau	5
Risgiau	6
Trosolwg o'r broses o ddiffinio'r safonau	6
Crynodeb o'r safonau arfaethedig	7
Disgwyliadau	7
Cymorth	8
Cyfeiriadau	**9**
Atodiad: Safonau	**10**

Rhagair y Gweinidog

Ym mis Mawrth 2013, ysgrifennodd fy rhagflaenydd Leighton Andrews at bob awdurdod lleol yn gofyn iddynt adolygu eu polisïau hidlo'r we ar gyfer ysgolion a thynnu'r rhwystrau i fynediad i wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Roedd hyn mewn ymateb i dystiolaeth glir a awgrymodd y byddai plant yn cael eu diogelu'n well pe bai ysgolion yn eu haddysgu am sut i ymddwyn yn ddiogel a chyfrifol ar-lein, gyda'r plant yn trosglwyddo'r ymddygiad hwnnw i'w bywydau bob dydd.

Ar 10 Mehefin 2015 cyhoeddais ddatblygiad newydd, sef y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yr oedd Graham Donaldson wedi'i argymell yn ei gynigion ar gyfer y trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd yng Nghymru. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i athrawon gael gafael ar ystod eang o adnoddau er mwyn datblygu eu gallu eu hunain, yn ogystal â gallu eu disgyblion. Trwy fabwysiadu'r safonau hyn ar gyfer hidlo'r we, bydd awdurdodau lleol ar flaen y gad o ran gwneud newidiadau go iawn i ddulliau addysgu a dysgu mewn ystafelloedd dosbarth ledled Cymru a byddant yn helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc yn briodol.

Felly, mae'n bleser gen i gefnogi cyhoeddiad y safonau hidlo'r we hyn. Rwy'n annog pob awdurdod lleol i adolygu eu polisïau presennol yn erbyn yr argymhellion hyn i sicrhau y gall athrawon a disgyblion ymgysylltu'n llawn â'r cyfleoedd addysgol y bydd y mynediad ehangach hwn yn eu darparu.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru

Rhesymeg

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddiogelu dysgwyr ar-lein yw bod angen addysgu pobl ifanc sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel dan oruchwyliaeth ac yna'u helpu i feithrin y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i reoli eu risgiau eu hunain wrth iddyn nhw ddefnyddio'r rhyngrwyd yn annibynnol.

> 'There is a growing acceptance that simply blocking children and young people's access to the internet in schools is not an effective way to keep them safe and increase their resilience' - *Yr Athro Tanya Byron, Seicolegydd Clinigol Siartredig*

Nod

Bydd y safonau ar gyfer hidlo'r we sydd yn y ddogfen hon yn galluogi mynediad i wefannau sy'n helpu i ddarparu dysgu ac addysgu effeithiol mewn ysgolion. Byddant yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu beth yw ymddygiad ar-lein diogel, cyfrifol ac ystyriol yng nghyd-destun gweithgareddau addysgol â chymorth.

Bydd set gyffredin o safonau cytûn ar gyfer mynediad i'r rhyngrwyd yn rhoi cyfle i ysgolion wneud dewisiadau hyddysg ynghylch darpariaeth rhyngrwyd wedi'i hidlo, boed gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall. Rhaid i'r safonau fod yn addas i'r diben ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif a chaniatáu'r mynediad sy'n ofynnol gan ysgolion ond gan ddiogelu plant a phobl ifanc.

Cefndir

Yn 2006, yn dilyn cyfres o erthyglau papur newydd am blant dan 13 oed yn rhannu gwybodaeth bersonol ar-lein, ysgrifennodd Jane Davidson AC, y Gweinidog Addysg ar y pryd, at holl aelodau'r Cabinet a oedd yn gyfrifol am addysg yn awdurdodau lleol Cymru, i ofyn am eu sicrwydd bod gwefannau rhwydweithio cymdeithasol wedi'u rhwystro yn ysgolion, llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid dan law'r cyngor. Cadarnhaodd pob awdurdod lleol, fwy neu lai, eu bod eisoes yn rhwystro'r gwefannau hyn yn dilyn pryderon am allu plant a phobl ifanc i amddiffyn eu hunain ar-lein wrth ddefnyddio'r technolegau cymdeithasol newydd hyn.

Dros amser, datblygodd dealltwriaeth well o'r cyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i gorff o waith a oedd yn pwysleisio'r angen am ddull mwy cytbwys o ymdrin â diogelwch plant ar y we. Roedd hyn yn cynnwys gwaith pwysig fel:

- adroddiad yr Athro Tanya Byron yn 2008[1] a oedd yn trafod sut y dylai ysgolion roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i blant a phobl ifanc allu

manteisio ar dechnolegau digidol a chadw'u hunain yn ddiogel ar y rhyngrwyd

- adroddiad yr Athro Tanya Byron yn 2010[2] a oedd yn asesu'r cynnydd a wnaed ers yr adroddiad diwethaf
- canfyddiadau Ofsted yn 2010[3] a ddangosodd bod gan ddisgyblion mewn ysgolion oedd â systemau 'rheoledig', wybodaeth a dealltwriaeth well o sut i gadw'n ddiogel na rhai mewn ysgolion â systemau 'cloi i lawr'. Ar y cyfan, roedd disgyblion yn fwy agored i niwed pan oedd ysgolion yn defnyddio systemau 'cloi i lawr' am nad oeddynt yn cael digon o gyfle i asesu a rheoli risg eu hunain.

Roedd adroddiad dilynol gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol ar Ddulliau Addysgu Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 yn argymell datblygu diwylliant o ddinasyddiaeth ddigidol ymhlith athrawon a dysgwyr yng Nghymru, sy'n cynnwys dulliau mwy cadarnhaol o ddefnyddio technolegau cymdeithasol ym maes addysg.

Ym mis Mehefin 2014, fe wnaeth Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, ryddhau datganiad ar Ddysgu yn y Gymru Ddigidol, mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd yn cynnwys ymrwymiad clir i ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol mewn ffyrdd diogel a chadarnhaol ym myd addysg. Ym mis Mawrth 2013, ysgrifennodd Leighton Andrews at bob awdurdod yn gofyn iddyn nhw ailystyried eu sefyllfa o ran rhwystro safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

Cafwyd rhagor o dystiolaeth ddiweddar am yr angen am newid yn:

- adroddiad Tirwedd Diogelwch Ar-lein Cymru gan South West Grid for Learning, Mawrth 2014 (http://hwb.wales.gov.uk/Resources#resource/612d01c1-3ab0-4cfa-b82d-8633029b9678/cy) a ddaeth i'r casgliad bod 'rhai pobl broffesiynol yn parhau i wynebu dull "cloi i lawr" i ddiogelwch ar-lein gan rhai ysgolion ac uwch arweinwyr'
- adroddiad thematig Estyn: TGCh yng nghyfnod allweddol 3: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd (http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/319328.1/TGCh%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203:%20Effaith%20TGCh%20ar%20ddysgu%20disgyblion%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20mewn%20ysgolion%20uwchradd%20-%20Gorffennaf%202014%20%20/?navmap=30,163) a argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol a'r consortia addysg rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion technegol sy'n cyfyngu ar fynediad i adnoddau TGCh mewn ysgolion uwchradd
- O gofio cynigion adroddiad Donaldson, (http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy) mae ysgolion yn debygol o ofyn am fynediad i amrywiaeth ehangach o wefannau, rhai ohonynt wedi'u rhwystro'n draddodiadol gan systemau hidlo awdurdodau lleol.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion Cymru yn dal i ddefnyddio gosodiadau hidlo wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol/unedol. Mewn rhai achosion, caiff hyn ei wneud mewn ymgynghoriad ag ysgolion, ac mewn achosion eraill, mae'r ysgolion yn derbyn safbwynt yr awdurdod lleol ac felly ychydig iawn o hyblygrwydd sydd ganddynt o ran mynediad i wefannau, gan gynnwys, er enghraifft gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Dylid cydnabod bod rhai ysgolion yn ddigon bodlon i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb am rwydweithio cymdeithasol yn yr ysgol ac nad oes gan awdurdodau lleol y gallu technegol o reidrwydd i gynnig hidlo gwahaniaethol. Cydnabyddir nad oes yr un awdurdod lleol neu ysgol yn mynd ati'n fwriadol i roi plant mewn perygl.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio sawl ateb gwahanol i ddarparu gwasanaeth hidlo'r we i ysgolion, ac maent ar gamau gwahanol yn eu prosesau caffael. Bydd rhai awdurdodau lleol yn ei chael hi'n haws nag eraill i roi'r safonau awgrymedig ar waith. Dylid ystyried y safonau fel rhai sy'n arwain trafodaethau'r dyfodol ar weithredu atebion hidlo'r we yn hytrach na fel set derfynol o ofynion statudol.

Yn achos ysgolion sydd wedi gadael darpariaeth yr awdurdod lleol, mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos nad ydynt yn llwyr ddeall mai nhw bellach sy'n gyfrifol am hidlo a rhwystro mynediad i ddeunydd anaddas. Byddai cyfres gyffredin o safonau y cytunwyd arnynt yn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â darpariaeth rhyngrwyd wedi'i hidlo.

Manteision y safonau

- Bydd gan ysgolion ac awdurdodau lleol set gyffredin o safonau hidlo, wedi'u cytuno gan weithwyr addysg proffesiynol, staff technegol ac ysgolion, y gellir eu cyflwyno'n briodol i mewn ysgolion. Dylid cyflwyno meini prawf gwahanol ar gyfer hidlo'r we, yn dibynnu ar oedran y plentyn.

- Gellir addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â sut i ddefnyddio technolegau cymdeithasol yn ddiogel a chyfrifol mewn lleoliad a reolir. Gallant wedyn ddefnyddio'r sgiliau ar-lein diogel pan fyddant y tu allan i'r ysgol, er enghraifft mewn caffi rhyngrwyd neu wrth ddefnyddio'u ffonau symudol ar y bws ysgol.

- Bydd athrawon yn gallu manteisio ar yr holl adnoddau ar-lein creadigol a chydweithredol (gan gynnwys Hwb a Hwb+) sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflwyno canlyniadau gwell i ddysgwyr waeth ble maen nhw yng Nghymru – gan gynnwys ffrydio a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Bydd dysgwyr a'r holl staff addysgu yn elwa ar bob agwedd ar adnoddau Hwb. Rydym yn disgwyl i'r wefan gynnwys amryw o dechnolegau "cyfarwydd" ymhen amser, gan roi cyfle i ddysgwyr fanteisio ar bob math o adnoddau a chynnwys a chyfle hefyd i ddefnyddio'r adnoddau a ddefnyddiant yn y byd go iawn wrth ddysgu.

Risgiau

- Oni bai bod rhaglen lawn o gymorth a chanllawiau i uwch arweinwyr, llywodraethwyr, athrawon a staff addysg ar ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol ar eu cyfer nhw eu hunain a'r myfyrwyr, bydd ysgolion yn gyndyn o ymgysylltu â thechnolegau cyfryngau cymdeithasol a'r cyfleoedd dysgu ac addysgu ehangach sydd ar gael ar y we.

- Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod hi'n her i awdurdodau lleol ddarparu'r safonau arfaethedig, ac i rai ysgolion fanteisio ar yr holl gyfleoedd amrywiol a gynigir pe bai'r safonau'n cael eu mabwysiadu.

- Disgwylir y bydd y categorïau a nodwyd yn y ddogfen hon yn newid dros amser ac felly mae'n hollbwysig bod y safonau hyn yn cael eu hadolygu gyda rhanddeiliaid bob blwyddyn, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Trosolwg o'r broses o ddiffinio'r safonau

- Cafodd arolwg o awdurdodau lleol ei greu gan weithgor bychan, a'i ddosbarthu drwy Gymdeithas Rheolwyr TG (Socitm), er mwyn cael gwybodaeth am ddarpariaeth hidlo'r we ledled Cymru ar hyn o bryd. Ymatebodd 17 o awdurdodau lleol. Dyma flas ar yr uchafbwyntiau:

    - Roedd 75% o'r ymatebwyr eisoes yn cynnig system hidlo oedran wahaniaethol;
    - Mae 85% o'r ymatebwyr yn bwriadu newid neu adnewyddu eu darparwr hidlo'r we o fewn y tair blynedd nesaf;
    - Smoothwall, Websense a Bloxx oedd yr atebion mwyaf cyffredin;
    - Timau TG corfforaethol bron yn ddieithriad, yn hytrach na'r ysgolion eu hunain, oedd yn adrodd ar y defnydd o'r we.

- Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y consortia addysg rhanbarthol, timau technegol awdurdodau lleol a chydweithwyr o South West Grid for Learning er mwyn trafod sut i ddatblygu'r safonau arfaethedig. Cytunodd pawb ar y canlynol:

    - nid yw'r sefyllfa lle mae rhai ysgolion yng Nghymru yn gallu cyrchu gwefannau sy'n helpu i addysgu a dysgu'n effeithiol mewn ysgolion (gan gynnwys gwefannau technoleg gymdeithasol) ac eraill ddim – ar sail lleoliad yn unig - yn dderbyniol fel ffordd ymlaen;
    - pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol ddylai ddewis pa wefannau sydd i'w defnyddio yn yr ysgol bob amser;
    - mae gwir angen creu grŵp hidlo'r we er mwyn cael barn arbenigol fel bo'r angen.

- Penderfynwyd cynnal adolygiad o'r dull rhwystro ar sail categorïau a ddefnyddir gan dri phrif ddarparwr gwasanaeth hidlo. Cytunwyd y byddai cytundeb cyffredinol ar draws y categorïau yn sail i'r safonau arfaethedig.

- Cafodd y categorïau eu hadolygu eto mewn cyfarfodydd dilynol a chytunwyd y byddai dull oedran-priodol yn cael ei fabwysiadu a'r categoreiddio'n cael ei rannu'n bedwar grŵp*:

    - Dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen (3-7) a Chyfnod Allweddol 2 (7-11)
    - Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14)
    - Dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 (14-16) ac ôl-16
    - Athrawon a staff nad ydynt yn addysgu.

- Yna, cafodd pob categori grŵp oedran ei adolygu er mwyn penderfynu a ddylid rhwystro neu ganiatáu'r gwefannau yn y categori hwnnw.

- Datblygwyd y ddogfen hon mewn cydweithrediad â phob math o randdeiliaid amrywiol ledled Cymru.

* Dylai ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion fabwysiadu'r categorïau a awgrymwyd yn seiliedig ar allu eu dysgwyr yn hytrach nag ar eu hoed cronolegol fel y bo'n briodol.

Crynodeb o'r safonau arfaethedig

- Dylai gweithwyr addysgu proffesiynol gael mynediad i'r casgliad llawn o gategorïau ar wahân i'r gwefannau sy'n amlwg yn niweidiol, anghyfreithlon neu'n amhriodol.

- Dylai pob defnyddiwr gael mynediad i'r cyfryngau ffrydio a lawrlwytho

- Dim ond dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fyddai ddim yn cael mynediad i wefannau rhyngweithio cymdeithasol sy'n gofyn am wirio oedran.

Disgwyliadau

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl:

- bod awdurdodau lleol sy'n rheoli hidlyddion y we ar ran eu hysgolion yn gweithredu'r safonau;

- bod ysgolion sydd wedi trefnu darpariaeth hidlo y tu allan i'r awdurdod yn gwirio bod eu system hidlo bresennol yn cydymffurfio â'r safonau hyn;

- bod gweithwyr addysg proffesiynol yn mynd ati i addysgu ymddygiad ar-lein diogel, cyfrifol ac ystyriol yng nghyd-destun gweithgareddau addysgol priodol.

Cymorth

Ym mis Ionawr 2014, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract i gwmni SWGfL a sefydliadau partner yng Nghymru i weithio gyda swyddogion ar raglen addysg a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o e-Ddiogelwch. Trwy'r parth e-Ddiogelwch newydd ar Hwb (hwb.cymru.gov.uk), mae pob math o gyngor ac adnoddau ar gael i blant, rhieni ac athrawon gan gynnwys:

- dull hunanasesu 360 degree safe Cymru sy'n galluogi ysgolion i bwyso a mesur eu hymarfer a'u darpariaeth trwy broses hunanadolygu ac sy'n cynnig cyfle i ennill marc ansawdd e-Ddiogelwch os yw'n briodol;

- Adnodd Llythrennedd Digidol sy'n cynnwys adnoddau gwersi o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 oed, sy'n gynyddol gwmpasu wyth thema allweddol sy'n gysylltiedig â defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg a'r rhyngrwyd gan gynnwys seiberfwlio, ôl troed digidol a diogelwch y rhyngrwyd.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol er mwyn deall eu sefyllfa a'u safbwyntiau ar y safonau hyn.

Cyfeiriadau

[1] *Safer children in a digital world: the report of the Byron Review*, (PP/D16 (7576)/03/08), DCSF a DCMS, 2008; ISBN: 9781847751348

[2] *Do We have Safer Children in a Digital World? A Review of Progress since the 2008 Byron Review.* (2010) DCSF Publications ISBN: 9781847757111

[3] *The Safe Use of New Technologies*. Ofsted, 2010. Hawlfraint y Goron.

Atodiad: Safonau

Allwedd

Gwyrdd = Caniatáu
Coch = Rhwystro

Noder - mae teitlau'r categorïau a'r disgrifiadau yn deillio'n syth o un o'r atebion a ddarparwyd i ysgolion.

Categori	Disgrifiad	Cyfnod Sylfaen / CA2	CA3	CA4 / ÔI-16	Athrawon a staff nad ydynt yn addysgu
Hysbysebion/hysbysebu (a)	Safleoedd sy'n hysbysebu nwyddau a gwasanaethau. Yn cynnwys naidlenni.				
Alcohol a thybaco	Cynhyrchwyr a dosbarthwyr diodydd alcoholig a chynhyrchion tybaco, yn ogystal â gwefannau sy'n hyrwyddo'r defnydd ohonynt.				
Adloniant	Yn cynnwys cerddoriaeth, sinema, theatr, amgueddfeydd, orielau celf. Canolfannau adloniant byw a chlybiau comedi. Gwefannau sy'n caniatáu i chi lawrlwytho cyfryngau (h.y. mae fideos a cherddoriaeth wedi'u heithrio'n benodol).				
Safleoedd arwerthu (b)	Safleoedd arwerthu/ocsiwn ar-lein ac unrhyw safle sy'n cynnig gwasanaethau i helpu i brynu neu werthu drwy arwerthiant ar-lein.				
Modurol/cerbydau	Mae cwmnïau cynhyrchu, gwerthu a gwasanaethu ceir yn perthyn i'r categori hwn. Gwefannau sy'n caniatáu i fasnachwyr neu'r cyhoeddi brynu neu werthu cerbydau. Mae clybiau ar gyfer cynhyrchwyr/modelau penodol hefyd yn berthnasol, yn ogystal â grwpiau trafod.				
Busnes a masnachol	Mae busnesau a sefydliadau masnachol yn perthyn i'r categori hwn, yn ogystal â grwpiau sy'n eu cynrychioli nhw ac unrhyw adroddiad/sylwebaeth ar gyfer y maes hwn yn benodol. Sylwch fod busnesau TG yn perthyn i'r				

	categori ‘Cyfrifiaduron a’r rhyngrwyd’ ac nid wedi’u cynnwys yma.				
Cyfrifiaduron a’r rhyngrwyd	Pob gwefan sy’n gysylltiedig â chaledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol - gan gynnwys gwerthiant. Mae’r newyddion a’r tueddiadau diweddaraf am y diwydiant cyfrifiadura neu’r rhyngrwyd hefyd wedi’u cynnwys. Mae gwefannau sydd â’r prif nod o ganiatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho meddalwedd wedi’u cynnwys yn y categori ‘Lawrlwytho meddalwedd’.				
Cyffuriau	Gwefannau sy’n gwerthu sylweddau anghyfreithlon/a reolir, sy’n hyrwyddo camddefnyddio sylweddau neu’n gwerthu cyfarpar cyffuriau.				
Addysg/sefydliadau addysgol	Mae colegau, prifysgolion, ysgolion cynradd ac uwchradd wedi’u rhestru yma. Hefyd, adnoddau addysgol ar-lein, fel meysydd llafur arholiadau a chwestiynau enghreifftiol. Sefydliadau cymorth fel cyrff derbyn a chynghorau ymchwil.				
Cyllid a buddsoddi/bancio	Pob agwedd ar gyllid personol a chorfforaethol. Gwefannau sy’n cymharu cynhyrchion ariannol. Gwefannau sy’n adrodd ar, neu’n ymateb i faterion ariannol.				
Bwyd a diod	Pob gwefan sy’n ymwneud â bwytai (bwyta i mewn neu allan) a thafarnau. Rhestrir unrhyw ryseitiau a materion coginio yn y categori hwn. Ffermydd a chynhyrchwyr bwyd eraill.				
Hapchwarae/gamblo (c)	Pob gwefan gamblo ar-lein ac all-lein a gwefannau sy’n hyrwyddo sgiliau ac arferion gamblo.				
Gemau	Pob gwefan sy’n gysylltiedig â gemau fideo, cyfrifiadurol neu ar-lein. Pob gwefan sy’n cefnogi chwarae gemau trwy gynnal gwasanaethau ar-lein, gwybodaeth am sut i dwyllo a chyngor cyffredinol.				
Gemau (Addysg)					

Llywodraeth/Cymdeithasau cysylltiedig	Pob gwefan o eiddo llywodraeth leol a llywodraeth ganolog sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â chyrff ac asiantaethau perthynol. Nid yw gwefannau sy'n ymwneud â'r lluoedd amddiffyn fel byddinoedd, llyngesau neu awyrluoedd wedi'u cynnwys yma – gweler y categori 'Milwrol' yn hytrach.				
Hacio	Mae adnoddau ar gyfer defnydd anghyfreithlon neu amheus o galedwedd neu feddalwedd wedi'u rhestru yma, ynghyd â gwefannau sy'n hyrwyddo meddalwedd ddistrywiol neu faleisus fel firysau a Trojans. Gwefannau sy'n disgrifio sut i gael mynediad heb awdurdod i systemau. Gwefannau sy'n dosbarthu deunydd hawlfraint sydd wedi'i 'gracio' i osgoi trwyddedu.				
Casineb a gwahaniaethu	Gwefannau sy'n hyrwyddo barn neu safbwyntiau ymosodol, israddol neu sarhaus am unrhyw ran o'r boblogaeth y gellir ei hadnabod yn ôl hil, crefydd, rhywedd, oedran, cenedligrwydd, anabledd corfforol, sefyllfa economaidd, tueddfryd rhywiol neu unrhyw ddewis arall o ran ffordd o fyw. Grwpiau gwleidyddol a chymdeithasol sy'n gwahaniaethu ar sail hil, crefydd, rhywedd, oedran, cenedligrwydd, anabledd corfforol, sefyllfa economaidd, tueddfryd rhywiol neu unrhyw ddewis arall o ran ffordd o fyw.				
Iechyd	Pob gwefan sy'n gysylltiedig ag iechyd personol, ysbytai, clinigau, meddyginiaethau presgripsiwn cyfreithlon a gwasanaethau perthynol.				
Anghyfreithlon	Gwefannau sy'n cynnwys cyfarwyddiadau, ryseitiau neu gyngor ar greu eitemau anghyfreithlon, fel ffrwydron, neu sy'n eu cynnig ar werth. Gwefannau sy'n rhoi cyfarwyddiadau, cyngor neu'n hyrwyddo gweithredoedd anghyfreithlon.				
Gwefannau lluniau/delweddau	Gwefannau sy'n lletya delweddau.				
Negeseuon gwib	Cleientiaid a gwasanaethau negeseuon gwib, ac unrhyw barthau sy'n ofynnol iddynt weithio'n llwyddiannus.				

Teleffoni'r rhyngrwyd	Pob gwefan sy'n cynnig cynhyrchion a gwasanaethau teleffoni'r rhyngrwyd /VoIP (Protocol Llais dros y Rhyngrwyd).				
Ffordd o fyw a diwylliant	Gwefannau sy'n ymdrin â materion bywyd fel mamolaeth a magu plant. Digwyddiadau bywyd fel priodas a phrofedigaeth. Mae dewisiadau ffordd o fyw fel LGBT wedi'u rhestru yma. Mae cynnwys rhywiol wedi'i eithrio a'i restru o dan 'Pornograffi a chynnwys oedolion'.				
Milwrol	Dylai gwefannau sy'n perthyn i sefydliadau milwrol swyddogol neu sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'w gweithgareddau gael eu cynnwys yn y categori hwn. Mae sefydliadau anghyfreithlon/parafilwrol wedi'u heithrio a dylid eu cynnwys yn y categori anghyfreithlon.				
Newyddion	Mae'r holl gyfryngau adroddiadau, fel newyddion ar-lein, papurau newydd a gwefannau materion cyfoes wedi'u rhestru yma.				
Grwpiau a fforymau newyddion	Gwefannau sy'n cynnig mynediad i grwpiau newyddion Usenet neu wasanaethau tebyg, neu unrhyw fforwm drafod arall nad yw'n perthyn yn hwylus i unrhyw gategori arall.				
Sarhaus a di-chwaeth	Nid yw'n hawdd diffinio beth yw ystyr sarhaus a di-chwaeth yn union. Nid gwefannau pornograffig neu dreisgar sydd yn y categori hwn; yn hytrach cynnwys sy'n anaddas i blant ysgol ei weld, neu na fyddai cyflogwr yn teimlo'n gyfforddus i'w staff ei weld. Mae enghreifftiau'n cynnwys: trafod gweithred rywiol o natur gignoeth ond nid pornograffig; hiwmor garw; lluniau o rai fu mewn damwain car; sylwadau ymfflamychol neu sarhaus am bobl, lleoedd, crefyddau neu ddiwylliannau.				
P2P	Mae pob gwefan sy'n hwyluso rhannu ffeiliau trwy ddefnyddio meddalwedd P2P yn perthyn i'r categori hwn. Mae'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, wefannau sy'n lletya meddalwedd P2P a gwefannau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am ffeiliau y gellir eu lawrlwytho â				

	meddalwedd P2P.				
Bachu cymar	Mae'r categori hwn yn cynnwys gwefannau chwilio am gymar/cariad, rhestrau personol, gwefannau sy'n trafod rhamant a pherthynas ryngbersonol - boed partneriaeth yn nod yn y pen draw neu beidio. Mae gwefannau a grëwyd gyda'r nod o sbarduno cyfarfyddiadau rhywiol wedi'u heithrio - ac yn rhan o'r categori 'Pornograffi a chynnwys oedolion'				
Pornograffi a chynnwys oedolion	Gwefannau â chynnwys rhywiol gignoeth ar ffurf llun neu destun. Mae unrhyw fath arall o ddeunydd oedolion/o natur rywiol wedi'i restru yma hefyd.				
Eiddo ac eiddo tirol	Dylai pob gwefan sy'n ymwneud â gwerthu, gosod ac adeiladu eiddo preifat neu fasnachol fod yn y categori hwn.				
Osgoi trwy ddirprwy	Unrhyw wefan sy'n gweithredu fel gwefan ddirprwyol, sy'n caniatáu mynediad i feddalwedd sy'n gallu osgoi hidlydd y we, neu'n cynnig canllawiau ar sut i osgoi hidlydd.				
Hamdden a diddordebau	Mae'r categori hwn yn cynnwys pob gweithgaredd neu ddiddordeb, ar wahân i chwaraeon, y gall rhywun ei ddilyn er mwynhad ac nid fel prif swydd. Mae'n amlwg yn ddiffiniad eang iawn.				
Recriwtio/swyddi	Unrhyw asiantaethau cyflogaeth, cwmnïau recriwtio a chwilotwyr, contractwyr ac asiantaethau sy'n helpu unrhyw un sy'n chwilio am waith. Pob gwefan sy'n caniatáu i bobl hysbysebu swyddi gwag, cynnig cyngor gyrfaoedd, disgrifio sut i lwyddo mewn cyfweliadau neu baratoi CV.				
Deunyddiau cyfeirio	Gwyddoniaduron, geiriaduron, thesawrws, atlasau ar-lein ac adnoddau gwybodaeth eraill sydd ar gael at ddiben ymchwil.				
Credoau crefyddol/ysbrydol	Dylai unrhyw wefannau sy'n ymwneud â chred grefyddol neu sgeptigaeth fod yn y categori hwn.				
Peiriannau chwilio	Mae'r categori hwn yn cynnwys unrhyw beiriannau chwilio, peiriannau metachwilio a chyfeiriaduron y we				

Addysg ryw	Mae'r categori hwn ar gyfer gwefannau sy'n trafod rhyw a rhywioldeb mewn ffordd wybodus nad yw'n voyeuraidd. Mae'r pynciau sy'n perthyn i'r categori hwn yn cynnwys: addysg am atgenhedlu dynol a dulliau atal cenhedlu, gwefannau sy'n cynnig cyngor ar atal heintiau rhywiol fel HIV a gwefannau sy'n cynnig cyngor i gymunedau LGBT ar faterion iechyd rhyw. Nodyn: bydd disgyblion CA2 angen mynediad i addysg ryw.		CA2			
Siopa/e-fasnach	Mae unrhyw wefan sy'n bodloni'r meini prawf canlynol wedi'i rhestru yma: Cynnig nwyddau ar werth; cynrychioli manwerthwr nad yw ar-lein; cymharu nwyddau; cynlluniau prynu ffafraethol. Nodwch yr eithriadau yn achos gwefannau sy'n perthyn i gategorïau eraill: arwerthiannau/ocsiynau, ceir a darnau sbâr, nwyddau a deunyddiau rhywiol, caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol, gemau fideo a chyfrifiadurol, gwyliau a theithio, nwyddau a gwasanaethau ariannol, alcohol a thybaco, cyffuriau, meddyginiaethau presgripsiwn ac arfau - dylid rhoi'r rhain yn y categori mwyaf addas i'w diben penodol.					
SMS a gwasanaethau ffôn symudol.	Defnyddir y categori hwn ar gyfer gwefannau sy'n caniatáu i rywun greu neu anfon negeseuon testun SMS. Gwefannau sy'n gwerthu tonau ffôn, gemau, fideo neu unrhyw gynnwys arall y gellir ei lawrlwytho. Nid yw cwmnïau ffonau symudol wedi'u cynnwys yma, ond yn hytrach yn y categori 'Siopa'.					
Lawrlwytho meddalwedd	Pob gwefan sydd â'r prif nod o alluogi defnyddwyr i lawrlwytho meddalwedd, boed am ddim neu'n fasnachol.					
Chwaraeon	Mae pob gwefan chwaraeon – boed swyddogol, answyddogol, yn gysylltiedig â'r cyfryngau neu ddilynwyr y gamp – yn y categori hwn, heblaw rhai sy'n gysylltiedig â gamblo.					
Cyfryngau i'w ffrydio neu lawrlwytho	Unrhyw wefan sydd â'r prif nod o ganiatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho cynnwys cyfryngau, boed wedi'i ffrydio neu beidio.					
Cyfieithu (d)	Pob gwefan sy'n cyfieithu tudalen ar y we o un iaith i'r llall, neu sy'n trosi testun o fewn tudalen.					

Teithio	Mae gwefannau sy'n gysylltiedig â'r pynciau canlynol wedi'u rhestru yma: cwmnïau teithio, awyrennau, cwmnïau fferi, cwmnïau trenau, gwestai a llety gwyliau i'w logi, cyngor ar deithio, amserlenni, llogi car.				
Trais	Mae unrhyw wefan sy'n arddangos neu'n hyrwyddo cynnwys sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn pobl neu anifeiliaid yn perthyn i'r categori hwn, yn ogystal â gwefannau sy'n hyrwyddo unrhyw ddull o niweidio'ch hun fel hunananffurfio neu ewthanasia.				
Arfau	Unrhyw wefan sy'n gwerthu arfau neu arfogaeth neu sy'n hyrwyddo'r defnydd o arfau. Gwefannau cynhyrchwyr arfau.				
Gwe-sgwrs.	Ystafelloedd sgwrsio ar y we.				
Blogio a rhyngweithio cymdeithasol (cyfyngiad oed) (e)	Unrhyw wefan sy'n lletya blog neu restr o flogiau, neu sy'n darparu gwasanaethau rhwydweithiau cymdeithasol. Diffinnir safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel rhai sy'n galluogi defnyddwyr i greu eu proffiliau neu gynnwys personol eu hunain, gweld proffiliau eraill, a chreu cysylltiadau rhwng proffiliau er mwyn dynodi cyfeillgarwch neu gymeradwyaeth.				
Blogiau a rhyngweithio cymdeithasol (mynediad agored)	Unrhyw wefan sy'n lletya blog neu restr o flogiau, neu sy'n darparu gwasanaethau rhwydweithiau cymdeithasol. Diffinnir safleoedd rhwydweithio cymdeithasol fel rhai sy'n galluogi defnyddwyr i greu eu proffiliau neu gynnwys personol eu hunain, gweld proffiliau eraill, a chreu cysylltiadau rhwng proffiliau er mwyn dynodi cyfeillgarwch neu gymeradwyaeth.				
Ysbïwedd/maleiswedd	Gwefannau sy'n lletya meddalwedd sy'n ceisio cael gafael ar wybodaeth bersonol neu breifat, yn ddiarwybod i'r defnyddiwr.				
Gwebost	Mae unrhyw wefan sy'n cynnig gwasanaethau e-bost yn y categori hwn.				

Nodiadau:

a. Mae hyn yn cyfeirio at hysbysebu uniongyrchol gan gynnwys naidlenni, yn wahanol i siopau ar-lein a ddefnyddir gan lawer o athrawon ar gyfer gweithgareddau llythrennedd a rhifedd.
b. Bu'r grŵp yn trafod Ebay yn benodol, gan mai hwn oedd un o'r safleoedd yr ymwelwyd ag ef amlaf mewn ysgolion. Cytunodd y grŵp ei bod hi'n bwysig caniatáu mynediad i wefannau ocsiwn o safbwynt diogelu, er mwyn addysgu'r disgyblion sut i ddefnyddio safleoedd o'r fath yn gyfrifol. Cytunwyd na ddylid caniatáu mynediad i ddysgwyr iau oherwydd cyfyngiadau oed.
c. Cytunwyd y dylai'r categori hwn fod yn hygyrch i athrawon ond y dylid ei rwystro i bob categori arall.
d. Tynnwyd sylw at y ffaith fod rhai gwefannau cyfieithu'n gallu codi delweddau o wefannau a all fod yn amhriodol. Cytunwyd y dylai'r gwefannau hyn fod yn hygyrch i athrawon ond wedi'u rhwystro i grwpiau defnyddwyr eraill.
e. Nodwyd na ddylid caniatáu i unigolion ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol tan eu bod yn 13 oed. Ar ôl cryn drafod cyfyngiadau oed Twitter a Facebook, cytunwyd y dylai'r cynnwys hwn fod ar gael i athrawon a staff nad ydynt yn addysgu, yn ogystal â dysgwyr hŷn, ond eu rhwystro i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen a CA2.